

PWYLLGOR CYNLLUNIO
7 CHWEFROR 2024

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod hybrid ddydd Mercher, 7 Chwefror 2024

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Richard Lloyd (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Mike Allport, Bernie Attridge, Chris Bithell, Helen Brown, Rob Davies, Adele Davies-Cooke, Carol Ellis, Gladys Healey, Dave Hughes, Paul Johnson, Richard Jones, Hilary McGuill, Ted Palmer, Mike Peers a Dan Rose

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorydd Paul Cunningham

HEFYD YN BRESENNOL: Yr oedd y canlynol yn bresennol fel Aelodau Lleol:

Y Cynghorwyr Glyn Banks a Gina Maddison ar gyfer eitem 6.2 ar y rhaglen

HEFYD YN BRESENNOL: Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi),
Rheolwr Gwasanaeth – Strategaeth,
Rheolwr Gwasanaeth – Datblygu,
Uwch Beiriannydd – Rheoli Datblygu Priffyrdd,
Uwch Swyddogion Cynllunio, Cyfreithiwr a Swyddogion Gwasanaethau
Democrataidd

50. DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Mike Peers gysylltiad personol ag eitem 6.1 ar y rhaglen gan fod perthynas iddo'n gweithio i Gymdeithas Tai Clwyd Alyn.

Datganodd y Cynghorydd Bernie Attridge gysylltiad personol ag eitem 6.2 ar y rhaglen gan ei fod wedi derbyn copi o nifer o e-byst gan yr asiant i swyddogion cynllunio. Yn dilyn ymateb yn gofyn am beidio â'u cael, rhoddwyd y gorau i anfon e-byst ato.

51. SYLWADAU HWYR

Byddai'r sylwadau hwyr yn cael eu cyflwyno cyn trafod pob eitem.

<http://modgov:9070/documents/s80002/7%20February%20Late%20Observations.pdf>

52. COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Ionawr 2024 yn gofnod cywir, ar ôl i'r Cynghorwyr Bernie Attridge a Ted Palmer eu cynnig a'u heilio. Ted Palmer.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod gwir a chywir.

53. EITEMAU I'W GOHIRIO

Nid argymhellwyd gohirio unrhyw un o'r eitemau.

54. ADRODDIADAU'R PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO, YR AMGYLCHEDD A'R ECONOMI)

PENDERFYNWYD:

Cofnodi'r penderfyniadau fel maent ar y rhestr o Geisiadau Cynllunio sydd wedi'i chynnwys fel atodiad.

55. AELODAU'R CYHOEDD A'R WASG HEFYD YN BRESENNOL

Yr oedd 1 aelod o'r wasg a 3 aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar ddechrau'r cyfarfod.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2pm a daeth i ben am 4.01pm)

.....
Y Cadeirydd

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio eu gweddarlledu, a gellir eu gwyllo drwy ymweld â'r llyfrgell weddarllediadau yma: <http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home>

PWYLLGOR CYNLLUNIO – 7 CHWEFROR 2024

RHIF YR EITEM	CYNGOR TREF / CYMUNED	SAFLE / CAIS	SYLWADAU TRYDYDD PARTI / AELOD LLEOL	PENDERFYNIAD
059739	Cyngor Tref Bwcle	Cais amlinellol – Codi cyfleuster gofal ychwanegol gyda 75 i 90 gwely i gynnwys cyfleusterau cymunedol a 12 byngalo a gwaith ategol yn Precinct Way, Bwcle.	Siaradodd Ryan Hopwood (Preswylydd) yn erbyn y cais.	Yn unol ag argymhelliad y swyddog, rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad a diwygiad i AMOD 4 i gynnwys cyflwyno darluniau trychiadol drwy'r safle yn cynnwys eiddo cyfagos.
FUL/000004/23	Cyngor Cymuned Llanasa	Cais llawn – Addasu adeilad presennol i ffurfio 7 rhandy / tŷ tref, 4 rhandy wedi eu hadeiladu o'r newydd a 2 annedd ar wahân a byngalo wedi ei addasu, gyda ffyrdd ategol a gwaith draenio yn Sefydliad Gronant, Ffordd Llanasa, Gronant.	Siaradodd y Cynghorydd Glyn Banks a Gina Maddison (Aelodau Lleol) yn erbyn y cais. Siaradodd Sian Braun (Cyngor Cymuned Llanasa) yn erbyn y cais. Siaradodd Sian Humphreys (Preswylydd) yn erbyn y cais.	Yn unol ag argymhelliad y swyddog, rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad a'r arian a ailgyfrifwyd yn ychwanegol a nodir yn y sylwadau hwyr ar gyfer Cytundeb Adran 106.